**SIR GAERFYRDDIN**

**(LLWYBR TROED CYHOEDDUS 51/120 (YN RHANNOL), HEOL BLAENAU, LLANDYBÏE)**

**(GWAHARDDIAD DROS DRO AR GERDDWYR) 2023**

**YN GYMAINT Â BOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn allan yma fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darnau hynny o Lwybrau Troed Cyhoeddus a nodir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn wedi'i fodloni y dylid cyfyngu ar y cerddwyr ar y darnau hynny o'r Llwybrau Troed am resymau diogelwch.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan ymarfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

Ni fydd unrhyw Gerddwyr yn mynd ar hyd y darnau hynny o Lwybr Troed a nodir yng ngholofn 1 i gyfeiriad sy'n groes i'r hyn a nodir yng ngholofn 2 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar y 25ain diwrnod o Hydref, 2023, a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Llwybr Troed Cyhoeddus 51/120 (yn rhannol) Heol Blaenau Llandybie) (Gwarharddiad Dros Dro ar Gerddwyr) 2023

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )
ar y ddogfen hon ar y 23ain )
diwrnod o fis Hydref, 2023 ym mhresenoldeb:-

Linda Rees-Jones

**Linda Rees-Jones**

**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

18172

**Yr Atodlen**

| (i) Cyfeirnod yr Hawl Dramwy Gyhoeddus a Disgrifiad Ohoni | | (ii) Y Ffordd Arall |
|---|---|---|
| Llwybr troed 51/120 (yn rhannol), Llandybïe | O fynedfa'r safle oddi ar Heol Blaenau, croesi'r bont, ac yna dilyn y trac i gyfeiriad y gorllewin yn gyffredinol hyd at y gyffordd â Llwybr Troed 51/O/36. Hyd: 370m | Dilyn Heol Blaenau i gyfeiriad y de-orllewin, ac yna troi tua'r gogledd ar hyd Llwybr Troed 51/O/32 i ailymuno â'r llwybr gwreiddiol. Hyd: 1250m |